Powys
*Neuadd y Sir / County Hall, Llandrindod, Powys, LD1 5LG*

Jeremy Patterson
Prif Weithredwr

Os yn galw gofynnwch am - If calling please ask for
Wyn Richards

*Ffôn / Tel:* 01597 826375
*Ffacs / Fax:* 01597 826220
*Ffôn Symudol / Mobile:*
*Llythyru Electronig / E-mail:* wyn.richards@powys.gov.uk
*Dyddiad / Date:* **28 Tachwedd 2014**

**Annwyl Aelod,**

**Gofynnir am eich presenoldeb yng nghyfarfod CYNGOR SIR POWYS, sydd i'w gynnal yn SIAMBR, NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD, DDYDD MERCHER 5 Mawrth 2014 am 12:30PM NEU WEDI CWBLHAU'R CYFARFOD CYNGOR A OHIRIWYD SY'N CAEL EI GYNNAL YN GYNHARACH YN Y DYDD**

**Yr eiddoch yn gywir,**

**Jeremy Patterson**

**Prif Weithredwr**

# A G E N D A

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC29-2014 |
|---|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | DATGANIADAU DIDDORDEB | CC30-2014 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau diddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau sydd i'w hystyried ar yr agenda.

| 3. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD | CC31-2014 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor neu'r Arweinydd

| 4. | NODYN BRIFFIO'R PRIF WEITHREDWR | CC32-2014 |
|---|---|---|

Derbyn nodyn briffio gan y Prif Weithredwr.

| 5. | PENDERFYNIAD AR DRETH Y CYNGOR 2014-15 | CC33-2014 |
|---|---|---|

Gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2014-15.

[ Amgaead CC33a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

[ Amgaead CC33b-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)

| 6. | DATGANIAD AR Y POLISI TALIADAU | CC34-2014 |
|---|---|---|

Ystyried y Datganiad ar y Polisi Taliadau.

**[ Amgaead CC34a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

**[ Amgaead CC34b-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

| 7. | DATGANIAD Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A'R STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL | CC35-2014 |
|---|---|---|

7.1 **Datganiad y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol**

Derbyn ac ystyried adroddiad yr Aelod Portffolio dros Gyllid.

**[ Amgaead CC35.1a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

7.2 **Mater Cyfrinachol**

Ystyried pasio'r Penderfyniad canlynol: Mae'r Swyddog Monitro wedi penderfynu bod yr eitemau canlynol yn destun categori 3, Rheolau Trefn Mynediad at Wybodaeth. Ei farn o ran prawf lles y cyhoedd (wedi ystyried darpariaethau Rheol 11.8, Rheolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor), oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn datgelu gwybodaeth ynghylch materion ariannol neu fusnes unigolyn (gan gynnwys yr awdurdod yr oedd y wybodaeth honno yn ei feddiant). Roedd y ffactorau hyn yn ei farn ef yn fwy pwysig na diddordeb y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. Gofynnir i Aelodau ystyried y ffactorau hyn wrth benderfynu ar y prawf lles y cyhoedd, sy'n rhaid iddynt benderfynu wrth ystyried eithrio'r cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod.

7.3 **Atodiad Cyfrinachol**

Derbyn ac ystyried yr atodiad cyfrinachol i'r adroddiad.

**[ Amgaead CC35.3a-2014 ] (Rhaid i chi fewngofnodi a bod â'r hawliau priodol i weld y ddogfen hon.) (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**

| 8. | RHYBUDD O GYNNIG | CC36-2014 |
|---|---|---|

Cyflwynwyd y cynnig canlynol i'r cyngor llawn ym mis Mawrth 2010 gan y Cyng. G.W. Ratcliffe a'r Cyng. S. Millington "Bod y Cyngor yn derbyn dull proactif i gefnogi'r warden c?n dan y Ddeddf C?n (Baeddu ar Dir) 1996 i fynd i'r afael â ch?n yn baeddu ym Mhowys. Dymuniad y cynnig hwn yw mabwysiadu dull llym, dim eithriadau tuag at g?n yn baeddu a chynyddu addysgu pobl a'r nifer o batrolau i fynd i'r afael â ch?n yn baeddu. Dylid erlyn unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n caniatáu i gi/c?n dan eu rheolaeth i faeddu ar dir a methu â glanhau ar eu holau. Yn ail, pan fydd erlyniad i fod o flaen llys y dylid hysbysu'r wasg ar yr erlyniad sydd i ddod. Bydd hyn yn dangos i'r cyhoedd ein bod yn golygu'r hyn a ddywedwn ac nad ydym yn barod i dderbyn y math gwrthgymdeithasol hwn o ymddygiad bellach. Hefyd, rydym yn gofyn y dylid rhoi ystyriaeth i ganiatáu estyn pwerau i staff parcio/strydoedd gyflwyno tocynnau o ran c?n yn baeddu pan fydd Cyngor Sir Powys yn cymryd rheolaeth dros barcio ar strydoedd." Canlyniad y drafodaeth oedd: "Cafodd yr Aelod Portffolio Tai a Gwarchod y Cyhoedd eu cynghori bod pum warden c?n yn y sir felly roedd yr adnoddau'n cael eu hymestyn. Croesawodd felly'r awgrymiad y dylid galluogi ystod ehangach o swyddogion i gymryd camau gorfodaeth. Roedd hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried dan y fenter Amgylchedd Lleol. Cynigiwyd diwygiad a'i eilio y dylai'r Aelod Portffolio baratoi adroddiad manwl gan gynnwys costau i'w ystyried gan y Bwrdd. PENDERFYNWYD y dylai'r Aelod Portffolio lunio adroddiad manwl yn cynnwys costau i'w ystyried gan y Bwrdd." Hefyd ym mis Chwefror 2013, cyflwynodd y Cyng. M. J. Dorrance ynghyd â'r Cyng. D. W. Meredith y cwestiwn canlynol: "Rwy'n si?r y byddwch yn cytuno ei bod hi'n hen bryd y dylid gwneud pob ymdrech gan yr Awdurdod i ddatrys y broblem gynyddol o g?n yn baeddu ar ein llwybrau troed, palmentydd a meysydd chwarae. A yw hi felly'n amser i'r Awdurdod weithio gydag Awdurdod Heddlu Dyfed Powys, fel ein sir gyfagos, Sir Gaerfyrddin, i roi caniatâd i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ym Mhowys ddod yn Swyddogion Gorfodaeth a chyflwyno dirwyon yn y fan a'r lle i bobl sy'n caniatáu i'w c?n faeddu yn ein hardaloedd cyhoeddus? Fel yr adroddwyd gan arolygydd yr heddlu, mewn cyfarfod Cyngor Tref diweddar, mae pob Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu newydd yn derbyn hyfforddiant priodol i'w galluogi i gynnal gwaith o'r fath fel a phryd y byddant yn derbyn y dogfennau perthnasol i'w galluogi i wneud hynny." Hefyd ym mis Gorffennaf 2013, cyflwynodd y Cyng. P. J. Asthon gwestiwn yn ymwneud â ch?n yn baeddu i'r Cyngor Llawn. Ers hynny, nid oes gwelliant wedi bod gyda materion c?n yn baeddu a phrif bwynt yr orfodaeth yw bod angen i'r erlyniaeth a'r datganiad tystion fod yn llwyddiannus. Mae'r Cynnig i'r Cyngor fel a ganlyn: Mae'r Cyngor hwn yn cynnal arolwg llawn o bwerau gorfodaeth dinesig a hefyd yn estyn y pwerau o ran c?n yn baeddu i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu er mwyn mynd i'r afael â'r mater o g?n yn baeddu ar draws y sir. Cynigiwr: Cynghorydd Sir G. W. Ratcliffe Eilydd: Cynghorydd Sir M. J. Dorrance

| 9. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD | CC37-2014 |
|---|---|---|

9.1 **<u>Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros Gomisiynu a Chaffael oddi wrth y Cynghorydd Sir Stephen Hayes.</u>**

Ym mis Ionawr, dywedwyd wrth y cabinet fod y gorwariant tybiedig ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol wedi cynyddu gan £428,000. Dywedwyd fod hyn 'yn bennaf oherwydd yr oedi wrth dendro am Wasanaethau Gofal yn y Cartref. Ni fydd y cynilion a ragwelwyd yn y flwyddyn bresennol yn cael eu gwireddu erbyn hyn.' Sut ydych chi, fel aelod portffolio dros gomisiynu a chaffael trwy gydol y cyfnod perthnasol, yn cyfiawnhau'r methiant costus hwn i'r Cyngor?

**<u>[ Amgaead CC37.1a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)</u>**

9.2 **Cwestiwn i'r Arweinydd a'r cyn Aelod Portffolio dros Briffyrdd, a'r Aelod Portffolio presennol dros Briffyrdd oddi wrth y Cynghorydd Sir Wynne Jones.**

Ym mis Hydref 2012, cyflwynodd yr Aelod Portffolio adroddiad i'r cabinet o ran Goleuadau Stryd, a gynigiodd 3 dewis. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd ar Ddewis 3. Y cynnig hwnnw oedd cael rhaglen dreigl led led Powys, lle y byddai nifer o'r Goleuadau Stryd presennol oedd 'YMLAEN' yn cael eu newid i LED, a fyddai yn ei dro yn creu ychydig o allu defnyddio ychwanegol, i alluogi troi nifer o oleuadau stryd sydd i 'FFWRDD' yn ôl ymlaen. Soniwyd yn yr adroddiad mai gweithred o gael cydbwysedd oedd hyn ac mai'r canlyniad yn gyffredinol oedd na fyddai unrhyw gynnydd yn y defnydd/costau ynni i'r Cyngor. Mewn gwirionedd, yn bendant yn fy ardal i ac ardaloedd eraill yng ngogledd Powys, nid yw hyn, yn wir, wedi digwydd. Y cyfan sydd wedi digwydd yw ein bod wedi trosi goleuadau i "FFWRDD" i LED gan sicrhau eu bod yn cael eu hailddefnyddio, tra bo'r hen oleuadau "YMLAEN" heb gael eu newid. Rwyf wedi derbyn cadarnhad oddi wrth yr Uwch Beiriannydd mai dyma yw'r achos ar gyfer pob Cymuned yn y gogledd y mae'n gyfrifol amdanynt. Hoffwn wybod gan bwy a phryd y gwnaed y penderfyniad hwn i newid y polisi a nodwyd yn glir yn Adroddiad y Cabinet ar 23 Hydref 2012, ac i gynnal proses wahanol a fyddai'n arwain yn ei dro ar gynnydd sylweddol yn y defnydd o ynni a chostau ynni. Fe wnaeth y penderfyniadau oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cabinet ar 23 Hydref 2012, arwain at ddisgwyliadau hefyd yn ein Cymunedau, a hoffwn ofyn ymhellach at hyn, pam na chafodd Aelodau Lleol wybod am y newid yn y polisi, a fyddai yn ei dro wedi'u galluogi i roi gwybod i'w Cymunedau gan reoli wedi hynny'r disgwyliadau lleol hynny.

**[ Amgaead CC37.2a-2014 ] (Mae'r ddogfen hon yn Saesneg am nad yw ar gael yn y Gymraeg.)**